



Cadeirydd, Syr David Henshaw  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Ty Cambria  
29 Newport Road  
Cardiff  
CF24 0TP

[Chair.Office@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:Chair.Office@naturalresourceswales.gov.uk)

7 Mai 2020

Annwyl Syr David,

### **Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru 2020-21**

Hoffwn nodi'r amcanion yr ydym wedi cytuno arnynt ar gyfer 2020-2021, sy'n ystyried y sefyllfa a berir gan Covid-19 na welwyd ei thebyg o'r blaen. Bydd yr amcanion hyn yn para tan ddiwedd Tymor y Llywodraeth hon.

Fodd bynnag, hoffwn ddechrau drwy ddiolch ichi ac aelodau staff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am eich proffesiynoldeb a'ch ymroddiad. Roddwn yn arbennig o falch o weld pa mor galed weithiodd y staff yn ystod y llifogydd yn gynharach eleni.

Rydych wedi arwain y sefydliad drwy gyfnod o newid sydd wedi cynnwys canlyniadau archwilio heriol. Mae'n ymddangos bod y cyfnod hwn yn dod i ben, gyda CNC yn symud tuag at sefyllfa lle y mae'n gallu ymateb mewn ffordd ddychmygus a chreadigol i'n heriau.

Mae gan CNC set o waith craidd y mae'n parhau i'w wneud yn dda. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa o ran COVID-19 yn effeithio ar bob sefydliad, ac ar CNC yn arbennig fel ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Er bod y llythyr hwn wedi'i lunio ar y cyd gyda'ch staff dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gwnaed sawl newid iddo i adlewyrchu'r darlun newidiol sydd o'n blaenau. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r heriau strategol sylweddol yr hoffwn i CNC eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen inni edrych ar y blaenoriaethau yn ngoleuni'r sefyllfa barhaus hon. Gofynnaf ichi gydweithio â'm swyddogion yn y Tîm Partneriaeth er mwyn inni fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau gofynnol.

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r prif heriau strategol yr hoffwn i CNC eu cyflawni. Mae CNC yn rheoli a gwarchod yr amgylchedd mewn ffordd strategol ar draws Cymru, o reoleiddio a gorfodi i gynnal Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod CNC yn cynnal y cylch gwaith craidd hwn sy'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, “Symud Cymru Ymlaen”, yn nodi sut y bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau mwy o swyddi a swyddi gwell drwy economi gryfach a thecach, yn gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, ac yn creu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae CNC yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd yr amgylchedd ac felly mae'n gwneud cyfraniad pwysig at sut y caiff y Rhaglen ei chyflenwi. Hoffai'r Llywodraeth hon weld pobl Cymru yn elwa ar yr amgylchedd naturiol.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd Llywodraeth newydd yn cael ei sefydlu ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, yn ogystal â Rhaglen Lywodraethu newydd. Y bwriad ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn yr adroddiad Cyflawni Gyda'n Gilydd (*Delivering Together*) yw symud tuag at gyloedd gwaith a fydd yn para tymor Llywodraeth ar gyfer Cyrff Hyd Braich yng Nghymru. Byddant yn darparu gweledigaeth strategol, lefel uchel ar gyfer cyflawni amcanion y Llywodraeth. Gofynnaf ichi ystyried y gofynion ar CNC dros y tymor hwy, yn enwedig wrth inni **ymateb i'r argyfwng hinsawdd**.

Mae'n hollbwysig bod CNC yn parhau i ymateb i'n hargyfwng hinsawdd a'r uchelgais cynyddol i weld 95% yn llai o allyriadau erbyn 2050. Hoffwn weld CNC yn chwarae rôl arweiniol o ran lledaenu'r hyn a ddysgir o'r Prosiect Carbon Positif. Bydd y DU ar lwyfan y byd yng Nghynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig (COP26) yn Glasgow. Rydym am weithio gyda CNC ac eraill i ddefnyddio'r COP fel cerbyd i godi momentwm go iawn ar gyfer newid, ond bydd angen inni adlewyrchu ar hyn pan fydd yr amseriadau yn gliriach.

Bydd cyflawni ar draws amryfal sectorau yn sicrhau y bydd amgylchedd Cymru yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd, megis llifogydd, sychder, gwres uchel a lefelau môr uwch. Er bod CNC eisoes yn ymateb yn effeithiol i argyfyngau amgylcheddol, mae adeiladu a gwella ein rhwydwaith o amddiffynfeydd llifogydd yn ymateb strategol allweddol i'r addasiad sydd ei hangen i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Rwy'n disgwyl i CNC sicrhau bod ei raglen llifogydd newydd yn cael yr effaith orau bosibl yn ystod y flwyddyn nesaf ac ym mlyneddoddedd i ddod, gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar fesurau lliniaru naturiol mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol yng Nghymru a'r cyhoedd.

Mae CNC yn chwarae rôl werthfawr o ran rheoli ac ehangu Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Mae'r ffaith bod CNC wedi dechrau gweithio ar raglen i greu coetir newydd yn fy nghalonogi am ei fydd yn disodli'r coetir a ddifethwyd yn sgil datblygiadau adnewyddadwy. Rwyf am fwrw ymlaen ymhellach â'n huchelgais i sicrhau bod arwynebedd coetir yr Ystad yn fwy mewn 25 mlynedd nag ydoedd yn 2018.

Mae UKCCC wedi nodi ei weledigaeth ar gyfer rôl rheoli tir yng Nghymru o ran ein helpu i liniaru effeithiau allyriadau parhaus. Mae'n glir bod angen inni gynyddu maint y ddalfa garbon yng Nghymru drwy reoli mwy o goetir, adfer mawnogydd i gyflwr ffafriol a chyflawni ein targed i sicrhau 2,000 o hectarau'r flwyddyn o arwynebedd coetir, gan godi hynny i 4,000 o hectarau'r flwyddyn yn y dyfodol agos. Fel y corff sy'n rheoleiddio'r gwaith o greu coetiroedd, mae gan CNC rôl hanfodol i'w chwarae o ran galluogi bod coed yn cael eu plannu ar y raddfa hon. Rwy'n disgwyl i CNC weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddilysu cynigion ar gyfer plannu ac i deilwra prosesau er mwyn sbarduno cynnydd o ran darparu coetiroedd newydd mewn ffordd sy'n cyflawni targedau Llywodraeth Cymru, neu'n rhagori arnynt.

Bydd angen i CNC barhau hefyd i weithio gyda fy swyddogion i greu Coedwig Genedlaethol, gan gynnwys drwy wella mynediad i rai o'n safleoedd coetiroedd hynafol, a'u hadfer yn ogystal â nodi safleoedd y gellir eu hystyried yn safleoedd enghreifftiol i ffurfio rhan o'r Goedwig Genedlaethol.

Mae'n bwysig bod CNC yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod strategol i gyflawni economi fwy cylchol. Mae gan CNC rôl hollbwysig i'w chwarae o ran ysgogi effeithlonrwydd adnoddau yn y diwydiannau y mae'n eu rheoleiddio, gan gefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu data i fonitro defnydd adnoddau, a sut caiff gwastraff ei gynhyrchu a'i reoli er mwyn mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon sy'n ymwneud â gwastraff.

Mae rôl allweddol gan CNC i'w chwarae o ran cefnogi'r trawsnewid i ynni adnewyddadwy. Rwyf am weld CNC yn adeiladu ar y gwaith hwn i ddatblygu dull cadarnhaol i alluogi a darparu datblygiad ynni adnewyddadwy, ar y glannau ac ar y môr, yn unol â fframweithiau cynllunio Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cynllun morol. Dylai hyn hefyd gynnwys ein targedau ynni adnewyddadwy a'n polisi ar gymryd mwy o berchnogaeth am gynhyrchu ynni. Bydd hyn yn golygu buddsoddi yn y sgiliau gofynnol ar gyfer economi werdd, i hyrwyddo twf ac ysbrydoli arloesedd. Bydd Datganiadau Ardal yn cefnogi blaenoriaethau ynni ac mae CNC eisoes wedi gwneud cynnydd o ran datblygu proses gymesur ar gyfer cydsynio ceisiadau ynni.

Rydym yn symud ymlaen at ein nod o wella ansawdd aer, lleihau allyriadau tŷ gwydr a gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol. Mae gan CNC ran fawr i'w chwarae i **stopio a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur**. Gan weithio'n agos gyda swyddogion, hoffwn weld CNC yn cymryd camau mawr i adfer ei safleoedd Natura 2000 ei hunan ac i fwrw ymlaen â'r rhaglen arfaethedig i adfer mawndiroedd sydd wedi dirywio er mwyn creu mawnogydd gwlyb sy'n gweithredu. Ochr yn ochr â hyn, hoffwn weld CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo rhaglen ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth ac arferion bioddiogelwch effeithiol, i leihau effaith plâu a chlefydau planhigion ac achosion sy'n deillio o Rywogaethau Estron Goresgynnol.

Bydd y Datganiadau Ardal a gychwynwyd ar 1 Ebrill yn galluogi'r blaenoriaethau yn fy Mholisi Adnoddau Naturiol i gael eu gweithredu ar sail lle. Mae gweithredu'r ffordd newydd hon o weithio ar draws CNC, mewn cydweithrediad â chymunedau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn gyfle hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a sicrhau manteision gweladwy i bobl a lleoedd ar draws Cymru. Mae'r flwyddyn hon hefyd yn hollbwysig o ran llunio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) y bwriedir ei gyhoeddi yn ystod 2020.

## **Gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'w chyrrff cyhoeddus weithio yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn unol â'r Ddeddf, mae CNC wedi cyhoeddi Datganiad Llesiant ac amcanion. Byddwch yn ymwybodol o rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hynny o beth, ac mae'n debygol y bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth i fodloni rhwymedigaethau'r Comisiynydd.

Mae ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill yn hanfodol er mwyn cyflawni nifer o'r blaenoriaethau hyn a'ch prosiectau yn llwyddiannus. Yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), hoffwn weld CNC yn adeiladu ar y cysylltiadau gyda'i bartneriaid i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu creu ar y cyd a'u rheoli'n gyson.

Byddwch yn ymwybodol o flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i weithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ymrwymo i weithredu Rhan 1, Adran 1 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Er nad yw CNC yn un o'r chyrrff y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddo yn statudol, hoffwn ddiolch ichi am gytuno i wirfoddoli i ymgymryd â hi.

## Cyllido

Mae argyfwng Covid-19 yn rhoi pwysau aruthrol ar bob maes ar draws y Llywodraeth. Gyda'r angen i hoelio sylw ein hymdrechion ar ymateb i'r argyfwng, byddaf yn pennu cyllid CNC ar gyfer 2020-21 cyn gynted ag y medraf. Sut bynnag, rwy'n cadw'r hawl i ystyried y ffigur hwn eto pan fydd gennym well syniad o'r adnoddau sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael yn effeithiol â phandemig Covid-19.

Fel y gwyddoch, rydym yn gweithio tuag at gyfuno eich cyfrifon yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru a bydd mwy o fanylion am hyn yn dilyn wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen. Bydd llythyr yn dilyn a fydd yn nodi fy ngofynion ar gyfer defnyddio elfen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCREM) o'ch Cymorth Grant. Rwy'n rhagweld y bydd hyn yn cynnwys gwaith ar sbarduno'r ddarpariaeth, rhoi adnoddau yn ôl yn eu lle a'r mesurau newydd a ddisgwyllir yn y Strategaeth Genedlaethol sydd ar ddod.

Rwy'n falch yn 2020-21 ein bod wedi sicrhau cronfeydd cyfalaf sylweddol i gyflawni ein hagenda amgylcheddol drwy wella ansawdd dŵr, gwella bioamrywiaeth ac adfer mawn. Bydd CNC yn bartner cyflenwi allweddol a bydd angen sicrhau bod yr uchafswm yn cael ei wario mewn blwyddyn, ar yr holl agweddau ar reoli adnoddau naturiol ar draws y cylch gwaith craidd a strategol.

## Trefniadau Trosolwg

Tim Render yw pennaeth eich Tîm Partneriaeth yn Llywodraeth Cymru a'r pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm yw Ruth Studley. Edrychaf ymlaen at gael eich cynllun busnes a fydd yn nodi sut y byddwch yn cyflawni'r amcanion hyn a byddwn yn ddiolchgar i'w gael cyn gynted â phosibl, neu erbyn 30 Mehefin 2020.

Mae CNC yn cwrdd yn rheolaidd gyda'i Dîm Partneriaeth i drafod trosolwg a threfniadau adrodd ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dull sy'n seiliedig ar risg o ran darparu trosolwg. Bydd y Tîm Partneriaeth yn gweithio gyda CNC yn rheolaidd i ymgymryd â'r asesiadau sicrhau risg sydd ar gael ar ei gyfer. Bydd y Tîm hefyd yn ystyried, ar sail flynyddol, yr angen am Adolygiad Pwrpasol.

Dylai'r llythyr hwn gael ei ystyried ar y cyd â'r Ddogfen Fframwaith, y llythyr cadarnhau cyllid blynyddol a'r llythyr FCERM blynyddol. Bydd y trefniadau hyn yn parhau am gyfnod y weinyddiaeth hon (Tymor y Llywodraeth), er bod modd diwygio'r cylch gwaith pe bai blaenoriaethau Gweinidogol yn newid. Ar ddiwedd Tymor y Llywodraeth hon, bydd y trefniadau hyn yn rhoio drosodd hyd nes bod y weinyddiaeth nesaf wedi datblygu ei hagenda strategol.



**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs